Senedd Cymru

**Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol**

# Craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2024-25

Chwefror 2024

senedd.cymru

# Argymhellion

**Argymhelliad 1.** Rhaid i Lywodraeth Cymru ysgrifennu at y Pwyllgor i ddarparu dadansoddiadau diwygiedig ar gyfer y gyllideb Ymgysylltu Rhyngwladol a dylai hyn gyfateb i'r dyraniad o £2,658,600 a nodir yn ail gyflwyniad ysgrifenedig y Prif Weinidog. ..... 11

**Argymhelliad 2.** Yng ngoleuni cyhoeddiad y Prif Weinidog y bydd yn gadael ei swydd cyn bo hir, rydym yn argymell y dylai'r Gweinidog a fydd yn gyfrifol am Gysylltiadau Rhyngwladol yn Llywodraeth nesaf Cymru, fynd i gyfarfodydd craffu ar Gyllidebau Drafft yn y dyfodol yn  cnawd. Bydd hyn yn sicrhau cydraddoldeb i'r maes polisi hwn â phortffolios Gweinidogol eraill. Rydym hefyd yn argymell y dylai'r wybodaeth a ddarperir yn y dyfodol gynnwys: ..... 12

**Argymhelliad 3.** Dylai Llywodraeth Cymru esbonio pam mae wedi gofyn i bartneriaid strategol gyflwyno cynlluniau ymgysylltu a chyflawni mor hwyr â chwarter cyntaf 2024. ..... 13

**Argymhelliad 4.** Dylai Llywodraeth Cymru, fel rhan o'r gwaith o gasglu gwybodaeth am effaith toriadau i'r gyllideb ar dargedau Cymraeg 2050, ddarparu asesiad o effaith bosibl penderfyniadau cyllido ar nifer y dysgwyr sy'n gallu cael gafael ar ddarpariaeth ôl-16 yn Gymrae, ac, yn benodol, prentisiaethau. ..... 20

**Argymhelliad 5.** Mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru ddarparu asesiad o effaith gwariant ar y Gymraeg ar draws portffolios y llywodraeth, a nodi sut y mae'n bwriadu monitro effaith penderfyniadau gwariant ar draws meysydd polisi yng Nghyllidebau Drafft y dyfodol. ..... 21

**Argymhelliad 6.** Rhaid i Lywodraeth Cymru esbonio sut y gwnaeth gyfrif am y swyddogaethau statudol ychwanegol o fewn cylch gwaith Comisiynydd y Gymraeg, wrth benderfynu lleihau'r gyllideb yn unol â Chomisiynwyr eraill. ..... 22

**Argymhelliad 7.** Mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru esbonio sut y mae wedi adolygu gallu Comisiynydd y Gymraeg i ddarparu y tu hwnt i'w swyddogaethau statudol, a pha rai o'r rhain allai ddod i ben os na fyddai cyllid ar gael. ..... 22

**Argymhelliad 8.** Dylai Llywodraeth Cymru ganfod pa ymrwymiadau gwario y gellid eu hoedi ac i'r cyllid hwnnw gael ei ailgyfeirio i ddiogelu'r casgliadau cenedlaethol. ..... 33

**Argymhelliad 9.** Dylai Llywodraeth Cymru wneud diogelu'r casgliadau cenedlaethol yn genhadaeth drawslywodraethol, a chanfod pa wariant y gellir ei ailddyrannu mewn adrannau eraill y llywodraeth i ddiogelu'r casgliadau cenedlaethol. ........ 33

**Argymhelliad 10.** Dylai Llywodraeth Cymru ddechrau trafodaethau brys gyda chyrff hyd braich i ddiwygio eu llythyrau cylch gwaith cyn y flwyddyn ariannol sydd i ddod, er mwyn sicrhau bod yr hyn a ofynnir ohonynt yn realistig yng ngholeuni cyllidebau llai. ........ 33

**Argymhelliad 11.** Dylai Llywodraeth Cymru ailystyried y gostyngiad arfaethedig yng nghyllideb Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru o 22 y cant i 10 y cant. Dylai hefyd amlinellu pa gymorth ariannol y gall ei ddarparu ar gyfer rhaglen ddiswyddo wirfoddol. ........ 34

**Argymhelliad 12.** Dylai Llywodraeth Cymru amlinellu sut mae'n monitro a sicrhau bod llywodraeth leol yn bodloni disgwyliadau Gweinidogol o ran gwasanaethau diwylliannol a hamdden. ........ 36

# 1. Cyflwyniad

**1.** Mae'r adroddiad hwn yn nodi safbwyntiau'r Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2024-25. Bwriad ein hadroddiad yw llywio'r ddadl ddydd Mawrth 6 Chwefror 2023.

**2.** Mae ein gwaith craffu wedi'i lywio gan y canlynol:

- tystiolaeth ysgrifenedig a ddarparwyd gan y Prif Weinidog, Gweinidog y Gymraeg ac Addysg, Gweinidog yr Economi, a Dirprwy Weinidog y Celfyddydau, Chwaraeon a Thwristiaeth;
- sesiynau tystiolaeth lafar gyda Gweinidog y Gymraeg ac Addysg ddydd Iau 11 Ionawr 2024, Gweinidog yr Economi, a Dirprwy Weinidog y Celfyddydau, Chwaraeon a Thwristiaeth ddydd Mercher 17 Ionawr 2024;
- tystiolaeth lafar ac ysgrifenedig a ddarparwyd gan gyrff y sector cyhoeddus yn ystod gwaith craffu cyffredinol yn ystod hydref 2023;
- safbwyntiau rhanddeiliaid mewn tystiolaeth ysgrifenedig a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Cyllid; a
- safbwyntiau rhanddeiliaid eraill ac aelodau o'r cyhoedd mewn tystiolaeth ysgrifenedig a gyflwynwyd i'r Pwyllgor hwn.

**3.** Mae ein hadroddiad wedi'i strwythuro yn unol â thri phortffolio gweinidogol a'r modd y maent yn cyfateb i'n cylch gorchwyl:

- Cysylltiadau Rhyngwladol (y Prif Weinidog)
- Y Gymraeg (Gweinidog y Gymraeg ac Addysg)
- Diwylliant, Cyfathrebu a Chwaraeon (Gweinidog yr Economi, a Dirprwy Weinidog y Celfyddydau, Chwaraeon a Thwristiaeth)

**4.** Cymerodd Huw Irranca-Davies AS ran yn ein gwaith craffu fel dirprwy ar ran Hefin David AS yn ein cyfarfod ddydd Mercher 17 Ionawr 2024. Cymerodd Mike Hedges AS ran yn ein hystyriaeth o faterion allweddol fel dirprwy ar ran Alun Davies AS yn ein cyfarfod ddydd Mercher 24 Ionawr 2024.

# 2. Cysylltiadau Rhyngwladol

**5.** Cawsom ddau gyflwyniad tystiolaeth ysgrifenedig gan y Prif Weinidog ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru o ran Cysylltiadau Rhyngwladol. Fel yn y flwyddyn flaenorol, gwahoddwyd y Prif Weinidog i roi tystiolaeth lafar ond gwrthododd.

**6.** Felly, cawsom yr eitem gyntaf o dystiolaeth ysgrifenedig gan y Prif Weinidog ar 20 Rhagfyr 2023.[1] Trafodwyd y dystiolaeth hon yn ein cyfarfod ar 11 Ionawr 2024. O ganlyniad i nifer o anghysonderau a nodwyd, fe wnaethom ofyn i'r Prif Weinidog am eglurhad brys a rhagor o wybodaeth i'w darparu erbyn 24 Ionawr 2024 mewn gohebiaeth ar 16 Ionawr 2024. Cawsom ail gyflwyniad ysgrifenedig gan y Prif Weinidog ar 25 Ionawr 2024.[2]

**7.** O'r cychwyn cyntaf, hoffem nodi bod y wybodaeth gychwynnol a gawsom (dyddiedig 20 Rhagfyr 2023) wedi disgyn yn sylweddol is na'r safon yr oeddem wedi'i disgwyl. Mae anghysonderau yn y dystiolaeth wedi ein hatal rhag ystyried y wybodaeth gyda hyder. Mae ymateb y Prif Weinidog, a fanylir mewn ail gyflwyniad o dystiolaeth (dyddiedig 25 Ionawr 2024), hefyd wedi gadael cwestiynau heb eu hateb sy'n rhwystro ein gwaith craffu ar wariant ar gysylltiadau rhyngwladol. Byddwn yn trafod y materion hyn ymhellach isod.

## Trosolwg o'r dyraniadau

**8.** Ar gyfer 2023-24, dywedodd y Prif Weinidog wrthym fod y gyllideb wreiddiol o £8.383 miliwn wedi'i lleihau i £8.272 miliwn o ganlyniad i ostyngiad o £111,000. Roedd hyn yn cynnwys trosglwyddiad o £100,000 i'r gyllideb Datblygu Rhyngwladol i dalu costau chwyddiant, a throsglwyddwyd £11,000 i gronfeydd wrth gefn ar gyfer costau prydles. Dychwelwyd £260,000 arall i gyllid canolog. Yr alldro a ragwelir ar gyfer 2023-24 felly yw £8.112 miliwn.[3] Ni roddwyd esboniad o ble y canfuwyd yr arbedion ac a fu unrhyw weithgareddau, canlyniadau neu allbynnau nas cyflawnwyd o ganlyniad i wneud yr arbedion hyn yn ystod y flwyddyn.

[1] Ymateb gan y Prif Weinidog: Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2024–25 – 20 Rhagfyr 2023 [PDF 182 KB]
[2] Ymateb gan y Prif Weinidog: Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2024–25 – 25 Ionawr 2024 [PDF 246 KB]
[3] Ymateb gan y Prif Weinidog: Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2024–25 – 20 Rhagfyr 2023 [PDF 182 KB]

## Anghysondeb mewn ffigurau

**9.** Mae Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2024-25, a gyhoeddwyd ar 19 Rhagfyr 2023, yn gosod y BEL Cysylltiadau Rhyngwladol dangosol ar £8.383 miliwn (fel yn 2023-24).[4] Mae'r ffigur hwn wedi'i ddiwygio i lawr yn dilyn didynnu arbedion o £290,000 sydd wedi'u nodi.

### Tabl 1: Cyllideb Ddrafft y Llinell Wariant yn y Gyllideb (BEL) ar gyfer Cysylltiadau Rhyngwladol[5]

| Llinell Wariant yn y Gyllideb | Cyllideb Derfynol 2023-24 Chwefror 2023 Ailddatganwyd | Cyllideb Derfynol Ddangosol 2024-25 Chwefror 2023 Ailddatganwyd | Diwygiadau i Ddyraniadau Dangosol 2024-25 | Trosglwyddiadau Prif Grŵp Gwariant i Brif Grŵp Gwariant | Trosglwyddiadau o fewn Prif Grwpiau Gwariant | Dyraniadau i / o Gronfeydd wrth gefn | Cyllideb Ddrafft 2024-25 Rhagfyr 2023 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 |
| Cysylltiadau Rhyngwladol | 8,383 | 8,383 | (290) | - | - | - | 8,093 |
| **Cam: Rhyngwladol** | **8,383** | **8,383** | **(290)** | **-** | **-** | **-** | **8,093** |

**10.** Cafodd y ffigur dangosol o £8.383 miliwn ei ddiwygio i lawr i £7.743 miliwn yng nghyflwyniad tystiolaeth ysgrifenedig cyntaf y Prif Weinidog, dyddiedig 20 Rhagfyr 2023.[6] Yn ychwanegol at yr arbedion o £290,000, ychwanegwyd trosglwyddiad o £350,000 allan o'r BEL Cysylltiadau Rhyngwladol i'r Prif Grŵp Gwariant ("MEG") Cyfiawnder Cymdeithasol at y tabl BEL a gynhwysir yn llythyr y Prif Weinidog.[7]

### Tabl 2. BEL Cysylltiadau Rhyngwladol Llythyr Prif Weinidog Cymru[8]

| Llinell Wariant yn y Gyllideb | Cyllideb Ddrafft Ddangosol 2024-25 Rhagfyr 2023 | Gostyngiad dros dro yn ystod y flwyddyn 2024-25 | Trosglwyddiadau Prif Grŵp Gwariant i Brif Grŵp Gwariant. | Cyllideb Derfynol Ddangosol 2024-25 Mawrth 2024 |
|---|---|---|---|---|
| | £000 | £000 | £000 | £000 |
| Cysylltiadau Rhyngwladol | | | | |

[4] Cyllideb Ddraft Llywodraeth Cymru 2024-25 – 19 Rhagfyr 2023
[5] Ymateb gan y Prif Weinidog: Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2024–25 – 20 Rhagfyr 2023 [PDF 182 KB]
[6] Ymateb gan y Prif Weinidog: Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2024–25 – 20 Rhagfyr 2023 [PDF 182 KB]
[7] Ymateb gan y Prif Weinidog: Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2024–25 – 20 Rhagfyr 2023 [PDF 182 KB]
[8] Ymateb gan y Prif Weinidog: Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2024–25 – 20 Rhagfyr 2023 [PDF 182 KB]

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Cam: Rhyngwladol** | **8,383** | 290 | 350 | **7,743** |
| **SPA: Rhyngwladol** | 8,383 | 290 | 350 | **7,743** |

**11.** Mae ail gyflwyniad tystiolaeth ysgrifenedig y Prif Weinidog, dyddiedig 24 Ionawr 2023, yn diwygio'r ffigur hwn yn ôl i fyny i £8.093 miliwn ond nid yw'n darparu tabl BEL wedi'i ddiweddaru.[9]

**12.** Yn ei gyflwyniad tystiolaeth ysgrifenedig cyntaf, mae'r Prif Weinidog yn esbonio bod y BEL Cysylltiadau Rhyngwladol yn cynnwys dwy elfen – (i) cyllideb Ymgysylltu Rhyngwladol o £3.059 miliwn a (ii) cyllideb swyddfeydd tramor o £5,434,400.[10] Darperir dadansoddiadau ar gyfer y ddau sy'n cynhyrchu cyfanswm o £8.493 miliwn yn erbyn cyllideb ddangosol o £7.743 miliwn. Fe wnaethom ofyn am esboniad o'r anghysondeb hwn a'r hyn a ymddengys fel gorwariant a gynllunir o £750,000 ar gyfer 2024-25.[11]

**13.** Mewn ymateb, dywedodd y Prif Weinidog yn ei ail gyflwyniad ysgrifenedig:

> *"Mae'r £750,000 yn ymwneud â chyllid 2023–24 ar gyfer Gweithgareddau'r Rhwydwaith Tramor, y cyfeiriwyd ato yn y llythyr gwreiddiol ond wedi'i hepgor o'r cyfrifiadau cryno drwy gamgymeriad."*[12]

**14.** Fodd bynnag, cymerwyd y ffigur hwn i ystyriaeth yn y cyflwyniad ysgrifenedig cyntaf a'i ailadrodd yn yr ail - nid yw'r dadansoddiad o'r costau ar gyfer gweithgarwch tramor wedi newid, gyda'r Prif Weinidog yn esbonio bod y rhain yn "gostau sefydlog na ellir eu lleihau."[13]

**15.** Yn ei ail gyflwyniad ysgrifenedig, rhoddodd y Prif Weinidog ffigur diwygiedig o £2,658,600 i ni ar gyfer y gyllideb Ymgysylltu Rhyngwladol.[14] Mae hyn yn nodi gostyngiad o £400,400 o'r cyflwyniad tystiolaeth ysgrifenedig cyntaf,

---

[9] Ymateb gan y Prif Weinidog: Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2024–25 – 25 Ionawr 2024 [PDF 246 KB]
[10] Ymateb gan y Prif Weinidog: Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2024–25 – 20 Rhagfyr 2023 [PDF 182 KB]
[11] Llythyr at y Prif Weinidog – Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2024-25 – 16 Ionawr 2024 [PDF 128 KB]
[12] Ymateb gan y Prif Weinidog: Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2024–25 – 25 Ionawr 2024 [PDF 246 KB]
[13] Ymateb gan y Prif Weinidog: Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2024–25 – 25 Ionawr 2024 [PDF 246 KB]
[14] Ymateb gan y Prif Weinidog: Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2024–25 – 25 Ionawr 2024 [PDF 246 KB]

lle rhoddwyd £3.059 miliwn fel y cyfanswm, gyda dadansoddiad o ddyraniadau, gan gynnwys ar gyfer cynlluniau gweithredu unigol Strategaethau Rhyngwladol.[15]

**16.** Ni ddarperir unrhyw ddadansoddiadau diwygiedig yn erbyn y ffigur diwygiedig o £2,658,600 ar gyfer Ymgysylltu Rhyngwladol. O'r herwydd, ni allwn ganfod lle y bydd toriadau'n digwydd o fewn y dadansoddiadau a ddarperir yn y cyflwyniad ysgrifenedig cyntaf.

**17.** Yn ogystal, nid oedd yn glir o'r cyflwyniad ysgrifenedig cyntaf o ba gyllideb y daeth gwariant arall y soniwyd amdanynt yng nghyflwyniad cyntaf y Prif Weinidog, fel Academi Heddwch, sydd â dyraniad cyllideb o £140,918 ar gyfer y flwyddyn ariannol gyfredol (2023-24).[16] Fe wnaethom ofyn i'r Prif Weinidog egluro ar frys o ba gyllideb y mae'r dyraniad hwn yn dod. Yn yr ail gyflwyniad, cadarnhaodd y Prif Weinidog fod ymrwymiadau'r Rhaglen Lywodraethu y manylir arnynt yn ei gyflwyniad cyntaf, gan gynnwys Academi Heddwch, wedi'u cynnwys yn y gyllideb Ymgysylltu Rhyngwladol.[17]

## Trosglwyddo o Cysylltiadau Rhyngwladol i Datblygu Rhyngwladol

**18.** Mae £350,000 wedi'i drosglwyddo o'r BEL Cysylltiadau Rhyngwladol i'r BEL Datblygu Cynaliadwy Rhyngwladol yn y MEG Cyfiawnder Cymdeithasol mewn blynyddoedd blaenorol. Diben hyn yw ar gyfer cyflawni elfennau Cymru ac Affrica o'r Strategaeth Ryngwladol.[18] Rydym eisoes wedi mynegi pryderon ynghylch y trosglwyddo hwn.

**19.** Roeddem hefyd yn pryderu nad yw'r trosglwyddo hwn wedi'i gofnodi yn llinellau BEL y Gyllideb Ddrafft.[19] Nid oedd y trosglwyddo hwn yn ymddangos yn wreiddiol fel trosglwyddo yn y BEL Cysylltiadau Rhyngwladol na BEL Datblygu Cynaliadwy Rhyngwladol y Gyllideb Ddrafft.[20] Yn y tabl Cyllideb Ddrafft ddiwygiedig a gynhwysir yng nghyflwyniad ysgrifenedig cyntaf y Prif Weinidog, dangosodd hyn fel trosglwyddo o'r BEL Cysylltiadau Rhyngwladol ond ni

---

[15] Ymateb gan y Prif Weinidog: Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2024–25 – 25 Ionawr 2024 [PDF 246 KB]
[16] Ymateb gan y Prif Weinidog: Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2024–25 – 20 Rhagfyr 2023 [PDF 182 KB]
[17] Ymateb gan y Prif Weinidog: Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2024–25 – 25 Ionawr 2024 [PDF 246 KB]
[18] Ymateb gan y Prif Weinidog: Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2024–25 – 20 Rhagfyr 2023 [PDF 182 KB]
[19] Cyllideb Ddraft Llywodraeth Cymru 2024-25 – 19 Rhagfyr 2023
[20] Cyllideb Ddraft Llywodraeth Cymru 2024-25 – 19 Rhagfyr 2023

ailymddangosodd fel trosglwyddo sy'n dod i mewn yn y BEL Datblygu Cynaliadwy Rhyngwladol.[21] Yn yr ail dabl diwygiedig a ddarperir yn ail gyflwyniad ysgrifenedig y Prif Weinidog, nid yw'n ymddangos bellach fel trosglwyddo sy'n gadael o'r BEL Cysylltiadau Rhyngwladol. Serch hynny, mae'r sylwebaeth a ddarparwyd gan y Prif Weinidog yn nodi bod y £350,000 wedi digwydd.[22]

**20.** Cymhlethwyd y mater hwn ymhellach gan y ffaith nad yw’r BEL 'Datblygu Rhyngwladol' fel yr oedd yn flaenorol, ac y cyfeirir ato drwy gydol cyflwyniad ysgrifenedig gyntaf y Prif Weinidog,[23] yn ymddangos yng Nghyllideb Ddrafft 2024-25,[24] fel mewn cyllidebau blaenorol oherwydd ei fod wedi'i ailenwi’n 'Datblygu Cynaliadwy Rhyngwladol' ym MEG Cyfiawnder Cymdeithasol Cyllideb Ddrafft 2024-25.[25] Arweiniodd hyn at beth dryswch gan ein bod o’r farn nad yw’r ddau derm yn gyfnewidiadwy.

**21.** Cyllideb Ddrafft Datblygu Cynaliadwy Rhyngwladol ar gyfer dyraniad 2024-25 yw £1.050 miliwn, sy'n nodi gostyngiad o 22.7 y cant o'i gymharu â'r gwariant o £1.359 miliwn a ragwelir ar gyfer 2023-24.[26] Mae'r £1.050 miliwn yn cynnwys £700,000 gan y MEG Cyfiawnder Cymdeithasol a’r trosglwyddo £350,000 i Gymru ac Affrica o'r BEL Cysylltiadau Rhyngwladol.[27] Waeth beth yw'r newid enw, nid yw'r £350,000 yn ailymddangos o hyd yn y BEL Datblygu Cynaliadwy Rhyngwladol ar gyfer Cyllideb Ddrafft 2024-25 fel trosglwyddo sy'n dod i mewn.[28]

**22.** Fe wnaethom ofyn i'r Prif Weinidog pam nad yw'r trosglwyddiad hwn yn ailymddangos yn y Gyllideb Ddrafft.[29] Yn ei ymateb, dywedodd y Prif Weinidog:

> *"Ar gyfer 2024–25, mae'r £350,000 ar gyfer Cymru ac Affrica wedi'i gynnwys yn ffrwd BEL Datblygu Cynaliadwy Rhyngwladol yn y*

[21] Ymateb gan y Prif Weinidog: Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2024–25 – 20 Rhagfyr 2023 [PDF 182 KB]
[22] Ymateb gan y Prif Weinidog: Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2024–25 – 25 Ionawr 2024 [PDF 246 KB]
[23] Ymateb gan y Prif Weinidog: Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2024–25 – 20 Rhagfyr 2023 [PDF 182 KB]
[24] Cyllideb Ddraft Llywodraeth Cymru 2024-25 – 19 Rhagfyr 2023
[25] Cyllideb Ddraft Llywodraeth Cymru 2024-25 – 19 Rhagfyr 2023
[26] Cyllideb Ddraft Llywodraeth Cymru 2024-25 – 19 Rhagfyr 2023
[27] Ymateb gan y Prif Weinidog: Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2024–25 – 20 Rhagfyr 2023 [PDF 185 KB]
[28] Cyllideb Ddraft Llywodraeth Cymru 2024-25 – 19 Rhagfyr 2023
[29] Llythyr at y Prif Weinidog – Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2024-25 – 16 Ionawr 2024 [PDF 128 KB]

> *gyllideb ddrafft. Y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol fydd yn penderfynu ar y defnydd priodol o'r gyllideb."*[30]

**23.** O ran ailenwi'r BEL Datblygu Rhyngwladol, cadarnhaodd y Prif Weinidog y newid enw yn ei ail gyflwyniad ysgrifenedig a dywedodd mai'r rhesymeg dros hyn oedd adlewyrchu gwaith Cymru ac Affrica yn well.[31]

## Partneriaid Strategol

**24.** Mae cyflwyniad ysgrifenedig cyntaf y Prif Weinidog yn amlinellu sut mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda phartneriaid strategol i gefnogi'r gwaith o gyflawni'r Strategaeth Ryngwladol.[32] Dywed y Prif Weinidog:

> *"Rydym yn disgwyl i'n partneriaid strategol gyflwyno eu cynlluniau ymgysylltu a chyflawni yn chwarter cyntaf 2024 a byddwn yn ystyried eu ceisiadau am adnoddau yn unol â hynny."*[33]

**25.** Oherwydd y pryder na fyddai gwybodaeth ariannol allweddol wedi cael ei hystyried yng nghyfrifiadau Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru, fe wnaethom ofyn i'r Prif Weinidog egluro ar frys pa gamau a gymerwyd i gael gwybodaeth ariannol gan bartneriaid strategol wrth i'r Gyllideb Ddrafft gael ei datblygu.[34]

**26.** Yn ei ail gyflwyniad tystiolaeth, dywedodd y Prif Weinidog wrthym fod Llywodraeth Cymru yn siarad yn rheolaidd â phartneriaid strategol o ran eu cynlluniau a'u gwariant.[35] Mae hefyd yn cadarnhau y cynhaliwyd cyfarfodydd cyn cyhoeddi'r Gyllideb Ddrafft ym mis Rhagfyr 2023 i amlinellu blaenoriaethau'r llywodraeth ac "i ddechrau trafodaethau ynghylch sut y gallent gyfrannu at eu cyflawni."[36]

---

[30] Ymateb gan y Prif Weinidog: Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2024–25 – 25 Ionawr 2024 [PDF 246 KB]
[31] Ymateb gan y Prif Weinidog: Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2024–25 – 25 Ionawr 2024 [PDF 246 KB]
[32] Ymateb gan y Prif Weinidog: Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2024–25 – 20 Rhagfyr 2023 [PDF 182 KB]
[33] Ymateb gan y Prif Weinidog: Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2024–25 – 20 Rhagfyr 2023 [PDF 182 KB]
[34] Llythyr at y Prif Weinidog – Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2024-25 – 16 Ionawr 2024 [PDF 128 KB]
[35] Ymateb gan y Prif Weinidog: Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2024–25 – 25 Ionawr 2024 [PDF 246 KB]
[36] Ymateb gan y Prif Weinidog: Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2024–25 – 25 Ionawr 2024 [PDF 246 KB]

**27.** Ychwanegodd, “Ar hyn o bryd mae partneriaid strategol yn ysgrifennu eu ceisiadau am gyllid yn 2024–25," a fydd yn dod o'r gyllideb Ymgysylltu Rhyngwladol.[37]

**28.** Fel yr eglurwyd uchod ym mharagraff 17, ni wnaeth y Prif Weinidog ddarparu dadansoddiadau newydd ar gyfer dyraniad y gyllideb Ymgysylltu Ryngwladol ddiwygiedig  yn ei ail gyflwyniad ysgrifenedig, ac felly ni allwn asesu lle gwnaed gostyngiadau, gan gynnwys ar draws cynlluniau gweithredu Strategaeth Ryngwladol.

## Ein Barn Ni

**29.** Mae'r dystiolaeth ysgrifenedig a gawsom yn is na'r safon a ddisgwyliwn ac ni allwn ystyried y ffigurau a'r cyfrifiadau a ddarperir yn hyderus. Mae dyraniad cyffredinol y Gyllideb Ddrafft ddangosol ar gyfer Cysylltiadau Rhyngwladol wedi newid ddwywaith ers cyhoeddi Cyllideb Ddrafft 2024-25 ar 19 Rhagfyr 2023. Ni ellid cysoni'r cyfrifiadau yng nghyflwyniad ysgrifenedig cyntaf y Prif Weinidog heb greu gorwariant sylweddol.

**30.** Er bod ail gyflwyniad ysgrifenedig y Prif Weinidog yn darparu ffigurau y gellid eu cysoni, nid oedd yn cynnig esboniadau boddhaol, na'r wybodaeth fanwl y gwnaethom gais amdani. Mewn rhai achosion, rydym wedi gorfod tybio gwybodaeth bwysig a chanlyniadol ac mae ein cwestiynau heb eu hateb. Mae hyn yn annerbyniol.

**31.** Er gwaethaf ein hymdrechion gorau, nid oes gennym ddadansoddiad cywir o'r llinell gyllideb Ymgysylltu Rhyngwladol sy'n allweddol i gyflawni'r Strategaeth Ryngwladol, ei chynlluniau gweithredu cysylltiedig ac ymrwymiadau'r Rhaglen Lywodraethu.

**32.** Trafodir trosglwyddo £350,000 MEG i MEG yn sylwadau'r Prif Weinidog ond nid yw'n ymddangos ar y Gyllideb Ddrafft ei hun fel trosglwyddo allan/i mewn. Mae'r diffyg didwylledd a thryloywder hwn yn destun pryder.

**Argymhelliad 1.** Rhaid i Lywodraeth Cymru ysgrifennu at y Pwyllgor i ddarparu dadansoddiadau diwygiedig ar gyfer y gyllideb Ymgysylltu Rhyngwladol a dylai hyn gyfateb i'r dyraniad o £2,658,600 a nodir yn ail gyflwyniad ysgrifenedig y Prif Weinidog.

[37] Ymateb gan y Prif Weinidog: Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2024–25 – 25 Ionawr 2024 [PDF 246 KB]

**33.** Mae'r materion a nodir yn yr adroddiad hwn yn dwysáu ein pryderon blaenorol ynghylch y diffyg eglurder a gawsom yn y Cyllidebau Drafft blaenorol sy'n ymwneud â chanlyniadau, effaith a gwerth am arian. Caiff effaith hyn ei luosi gan amharodrwydd y Prif Weinidog i ddod i sesiynau tystiolaeth lafar y Gyllideb Ddrafft yn ystod tymor y Senedd hon, sy'n golygu nad ydym wedi gallu cael eglurder ar y materion hyn yn ystod y cyfarfodydd hynny.

**34.** Dywed y Prif Weinidog yn ei gyflwyniad ysgrifenedig cyntaf "bod y galw am ymgysylltiad rhyngwladol yn uchel ac ar gynnydd."[38] Fel y Pwyllgor sy'n gyfrifol am Gysylltiadau Rhyngwladol, rydym yn croesawu ac yn dathlu'r newyddion hyn. Fel Pwyllgor, rydym yn ymdrechu i hyrwyddo gwaith rhyngwladol Llywodraeth Cymru. Fodd bynnag, mae'r diffyg didwylledd a thryloywder ar wariant a gynlluniwyd ar yr achlysur hwn wedi codi rhwystrau newydd i'n dealltwriaeth o flaenoriaethau Llywodraeth Cymru.

**35.** Rydym yn croesawu eglurhad y Prif Weinidog ar ailenwi'r BEL, er y dylai hyn fod wedi cael ei egluro yn nogfennau'r Gyllideb Ddrafft a'i ddwyn i'n sylw ni a'r Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol.

**Argymhelliad 2.** Yng ngoleuni cyhoeddiad y Prif Weinidog y bydd yn gadael ei swydd cyn bo hir, rydym yn argymell y dylai'r Gweinidog a fydd yn gyfrifol am Gysylltiadau Rhyngwladol yn Llywodraeth nesaf Cymru, fynd i gyfarfodydd craffu ar Gyllidebau Drafft yn y dyfodol yn y cnawd. Bydd hyn yn sicrhau cydraddoldeb i'r maes polisi hwn â phortffolios Gweinidogol eraill. Rydym hefyd yn argymell y dylai'r wybodaeth a ddarperir yn y dyfodol gynnwys:

- Dadansoddiadau cynhwysfawr o wariant a gynllunnir o fewn y BEL gan gynnwys Ymgysylltu Rhyngwladol a Swyddfeydd Rhyngwladol;
- Gwybodaeth yn ymwneud ag allbynnau, canlyniadau, effeithiau a gwerth am arian ar gyfer pob maes gwariant o fewn y BEL Cysylltiadau Rhyngwladol
- Dyraniadau a chymariaethau â gwariant a gynlluniwyd ar gyfer y flwyddyn nesaf yn erbyn y flwyddyn flaenorol; ac
- Amlinelliad o heriau pellach posibl a blaenoriaethau y gallai fod angen i Lywodraeth Cymru eu gwneud yn y blynyddoedd i ddod.

---

[38] Ymateb gan y Prif Weinidog: Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2024–25 – 20 Rhagfyr 2023 [PDF 182 KB]

**36.** Cawsom ein synnu o glywed bod trafodaethau gyda phartneriaid strategol yn cael eu cynnal mor hwyr â mis Rhagfyr 2023 ychydig cyn cyhoeddi'r Gyllideb Ddrafft. Cawsom ein synnu hefyd y gofynnwyd i bartneriaid strategol gyflwyno eu cynlluniau gwariant ac ymgysylltu ar gyfer 2024-25 mor hwyr â chwarter cyntaf 2024. Gallai hyn fod yn heriol i sefydliadau gysoni â chyllidebau aml-flwyddyn. Er ein bod yn derbyn y gallai cyllidebau is fod yn rheswm dros adolygu cynlluniau, rydym yn pryderu bod hyn yn digwydd mor hwyr.

**37.** Yn ein hadroddiad ar cysylltiadau Cymru-Iwerddon,[39] fe wnaethom nodi mor galonogol oedd gweld a thystio drosom ein hunain yr angerdd a'r brwdfrydedd y mae llawer o bartneriaid strategol yn ei deimlo am gydweithredu â phartneriaid rhyngwladol. Rydym yn pryderu y gallai'r dull a ddefnyddir i gael gwybodaeth ariannol allweddol ar hyn o bryd roi sefydliadau o dan bwysau gormodol.

**Argymhelliad 3.** Dylai Llywodraeth Cymru esbonio pam mae wedi gofyn i bartneriaid strategol gyflwyno cynlluniau ymgysylltu a chyflawni mor hwyr â chwarter cyntaf 2024.

[39] Cysylltiadau rhwng Cymru ac Iwerddon: Archwilio hen berthynas mewn oes newydd - Hydref 2023

# 3. Y Gymraeg

## Trosolwg o'r dyraniadau

**38.** Mae'r Gymraeg yn faes polisi trawsbynciol, gyda gwariant wedi'i wreiddio ar draws portffolios Gweinidogion. Felly, nid yw'n bosibl craffu ar bob dyraniad cyllid ar gyfer y Gymraeg. Fodd bynnag, mae pum BEL yn y Gyllideb Ddrafft ar gyfer 2024-25 yn benodol i'r Gymraeg. Mae hyn yn cynnwys BEL newydd sbon, Cymraeg 2050 (GAALl). Mae hyn yn dilyn cyfuno grantiau awdurdodau lleol a chonsortia i un cynllun grant o'r enw y Grant Addysg Awdurdodau Lleol. (GAALl)

**39.** Mae Cyllideb Ddrafft 2024-25 yn dyrannu cyfanswm o £53.6 miliwn mewn refeniw i gefnogi gwariant penodol ar y Gymraeg. Mae hyn yn cynrychioli cynnydd o £7 miliwn i ddyraniad y Gymraeg yn y Gyllideb Ddrafft yn gyffredinol. Daw'r cynnydd yn bennaf o ganlyniad i uno grantiau i mewn i BEL newydd Cymraeg 2050. Mae'r BEL hwn yn ymgorffori cyllid presennol a oedd yn eistedd o fewn cronfeydd BEL eraill nad oeddent yn benodol i'r Gymraeg, ond a oedd yn cefnogi nodau polisi'n gysylltiedig â hyrwyddo'r Gymraeg ac addysg Gymraeg. Gan gofio hynny, mae gostyngiad o flwyddyn i flwyddyn o bron i £3 miliwn yn nyraniad y Gyllideb Ddrafft ar gyfer y Gymraeg o'i gymharu â 2023-24.

### Setliadau aml-flwyddyn i'r Gymraeg

**40.** Yn 2022, gosododd yr Adolygiad o Wariant aml-flwyddyn Cymru gyllidebau am gyfnod o dair blynedd, ac roedd yn adlewyrchu cynnydd o flwyddyn i flwyddyn ar gyllidebau'r Gymraeg. Mae'r rhain yn gysylltiedig â'r ymrwymiadau a nodir yn y Rhaglen Lywodraethu a'r Cytundeb Cydweithio â Phlaid Cymru ("y Cytundeb Cydweithio"). Yn ei dystiolaeth ysgrifenedig, fodd bynnag, mae'r Gweinidog yn nodi bod y realiti ariannol, wedi golygu bod angen "dull mwy sylfaenol".[40] Mae adrannau gweinidogol ar draws y llywodraeth wedi gorfod ailflaenoriaethu cyllid ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf, wedi'u llywio gan yr angen i ddarparu cyllid a sicrwydd ychwanegol ar gyfer gwasanaethau'r GIG a Llywodraeth Leol.[41]

[40] Llywodraeth Cymru: Papur tystiolaeth ar Gyllideb Ddrafft 2024-25 - Cyllidebau'r Gymraeg ym Mhrif Grwpiau Gwariant Addysg a'r Gymraeg [PDF 1,000 KB]
[41] Llywodraeth Cymru: Papur tystiolaeth ar Gyllideb Ddrafft 2024-25 - Cyllidebau'r Gymraeg ym Mhrif Grwpiau Gwariant Addysg a'r Gymraeg [PDF 1,000 KB]

**41.** Esbonia'r Gweinidog ei fod wedi ceisio cyfyngu ar yr effaith a gaiff hyn ar gyllidebau'r Gymraeg, gan gynnwys "cyllid sy'n gysylltiedig â'r Bil Addysg Gymraeg, Mudiad Meithrin a chyllideb Cymraeg mewn Addysg."[42]

## Prentisiaethau ac addysg ôl-16

**42.** Mae Llywodraeth Cymru eisoes wedi ymrwymo i fuddsoddi £8 miliwn ychwanegol dros dair blynedd (2021-24) yn y Coleg Cymraeg Cenedlaethol a'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol.[43]

**43.** Mae'r buddsoddiad ychwanegol hwn yn helpu i ddatblygu prentisiaethau a darpariaeth Gymraeg ôl-16. Mae'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol, drwy ei Gynllun Gweithredu Addysg Bellach a Phrentisiaethau Cyfrwng Cymraeg[44], yn ceisio datblygu darpariaeth a chapasiti'r Gymraeg mewn meysydd blaenoriaeth, gan gynnwys iechyd a gofal cymdeithasol, gofal plant a gwasanaethau cyhoeddus.[45] Mae'r cyllid ychwanegol hefyd yn helpu i ddarparu cyrsiau Cymraeg am ddim ar gyfer pobl 18-25 oed drwy'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol.[46]

**44.** Er bod cyllid y Cytundeb Cydweithio wedi'i gynnal ar lefelau 2023-24 ar gyfer y ddau sefydliad (£2.825 miliwn i'r Coleg Cymraeg ac £1.675 miliwn i'r Ganolfan Genedlaethol), dywedodd y Gweinidog wrthym na fydd y cynnydd a fwriadwyd ar gyfer 2024-25 yn digwydd.[47]

**45.** Dywedodd y Coleg Cymraeg Cenedlaethol bod cynnydd amlwg wedi bod yn y sector ôl-16 ers i'r Coleg gymryd cyfrifoldeb am fuddsoddi mewn staff, adnoddau a darpariaeth newydd.[48] Nodir hyn yn y tabl isod[49]

---

[42] Llywodraeth Cymru: Papur tystiolaeth ar Gyllideb Ddrafft 2024-25 - Cyllidebau'r Gymraeg ym Mhrif Grwpiau Gwariant Addysg a'r Gymraeg [PDF 1,000 KB]
[43] Llywodraeth Cymru: Papur tystiolaeth ar Gyllideb Ddrafft 2024-25 - Cyllidebau'r Gymraeg ym Mhrif Grwpiau Gwariant Addysg a'r Gymraeg [PDF 1,000 KB]
[44] Tuag at Cymraeg 2050: Miliwn o Siaradwyr - Cynllun Gweithredu Addysg Bellach a Phrentisiaethau cyfrwng Cymraeg
[45] Tuag at Cymraeg 2050: Miliwn o Siaradwyr - Cynllun Gweithredu Addysg Bellach a Phrentisiaethau cyfrwng Cymraeg
[46] Gwersi Cymraeg am ddim bellach ar gael i bobl 18 i 25 mlwydd oed ac i staff addysgu – Llywodraeth Cymru – 23 Medi 2022
[47] Llywodraeth Cymru: Papur tystiolaeth ar Gyllideb Ddrafft 2024-25 - Cyllidebau'r Gymraeg ym Mhrif Grwpiau Gwariant Addysg a'r Gymraeg [PDF 1,000 KB]
[48] Cyflwyniad y Coleg Cymraeg Cenedlaethol i ymgynghoriad y Pwyllgor Cyllid ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2024-25
[49] Cymraeg 2050: miliwn o siaradwyr: adroddiad blynyddol 2022-23

| Blwyddyn | Addysg bellach | Dysgu Seiliedig ar Waith |
|---|---|---|
| **2017-18** | 7.3 y cant | 10.3 y cant |
| **2018-19** | 8.7 y cant | 11.9 y cant |
| **2019-20** | 8.8 y cant | 13.0 y cant |
| **2020-21** | 14.7 y cant | 20.8 y cant |
| **2021-22** | 18.2 y cant | 25.3 y cant |

**46.** Aiff y Coleg Cymraeg ymlaen i ddatgan ei bod yn hanfodol bod y cyllid gan Lywodraeth Cymru yn parhau ac yn cynyddu dros y blynyddoedd i ddod, er mwyn sicrhau bod y momentwm yn parhau a bod y twf yn digwydd mewn modd cynaliadwy.[50]

**47.** Mewn tystiolaeth ysgrifenedig, mae'r Gweinidog yn cydnabod:

> *"gall ailflaenoriaethu cyllid olygu y bydd yn rhaid i'r Coleg dynnu'n ôl o rai ymrwymiadau a wnaed i golegau AB a darparwyr prentisiaethau."*[51]

**48.** Wrth ysgrifennu, mae'r Gweinidog yn nodi hefyd y bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda'r ddau sefydliad i ystyried opsiynau i liniaru effaith hyn ar sectorau blaenoriaeth, yn ogystal â pharhau i gynnig cyrsiau am ddim i bobl ifanc 16-25 oed.[52]

**49.** Yn ei dystiolaeth lafar, dywedodd y Gweinidog wrthym am newidiadau o ran canlyniadau a mesurau:

[50] Cyflwyniad y Coleg Cymraeg Cenedlaethol i ymgynghoriad y Pwyllgor Cyllid ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2024-25
[51] Llywodraeth Cymru: Papur tystiolaeth ar Gyllideb Ddrafft 2024-25 - Cyllidebau'r Gymraeg ym Mhrif Grwpiau Gwariant Addysg a'r Gymraeg [PDF 1,000 KB]
[52] Llywodraeth Cymru: Papur tystiolaeth ar Gyllideb Ddrafft 2024-25 - Cyllidebau'r Gymraeg ym Mhrif Grwpiau Gwariant Addysg a'r Gymraeg [PDF 1,000 KB]

> *"… dŷn ni ddim yn rhagweld newid hwnnw, ond dwi'n credu bod angen trafodaeth barhaus rhwng swyddogion yn fy adran i a'r coleg Cymraeg i weld beth yw impact hynny ar lawr gwlad … dydy'r cysylltiad rhwng yr union gyllideb a'r cynnydd mewn myfyrwyr sy'n astudio ddim yn un sydd yn eglur iawn, a dweud y gwir; dyna pam mae cadw'r drafodaeth yn un byw yn bwysig."*[53]

## Cymraeg 2050

**50.** Yn ei dystiolaeth ysgrifenedig, mae'r Gweinidog yn datgan:

> *"… mai'r nod yw prif ffrydio Cymraeg 2050 ym mhob un o feysydd portffolio Llywodraeth Cymru,".*[54]

**51.** Yn ein sesiwn dystiolaeth, fe wnaethom ofyn i'r Gweinidog pa dystiolaeth sydd i'w chael fod targed Cymraeg 2050 yn dal i fod yn realistig. Wrth ymateb, dywedodd y Gweinidog wrthym:

> *"Wel, mae e dal yn realistig, dwi'n credu. Mae gyda ni her ariannol ar hyn o bryd, wrth gwrs, felly os edrychwch chi dros y tair blynedd ers inni osod y gyllideb yn 2022, mae'r cynnydd roedden ni'n darogan yn y gyllideb yn sylweddol—felly 15 y cant yn y flwyddyn gyntaf, jest dan 7 y cant yn yr ail flwyddyn a jest dros 7 y cant yn y drydedd flwyddyn. A beth ŷn ni wedi ceisio'i wneud wrth fynd i'r afael gyda'r heriau ariannol sydd yn ein hwynebu ni…"*[55]

**52.** Dywedodd y Gweinidog wrthym hefyd fod gwaith hefyd yn mynd rhagddo gyda'r Swyddfa Ystadegau Gwladol. Cadarnhaodd y Gweinidog fod gwaith wedi'i gomisiynu i ddeall yn well y ffactorau economaidd-gymdeithasol sy'n dylanwadu ar dwf y Gymraeg. Nododd fod y gwaith hwn, ynghyd â chanlyniadau'r Comisiwn

[53] Cofnod y Trafodion: Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol - 11 Ionawr 2024, paragraffau 15 a 19
[54] Llywodraeth Cymru: Papur tystiolaeth ar Gyllideb Ddrafft 2024-25 - Cyllidebau'r Gymraeg ym Mhrif Grwpiau Gwariant Addysg a'r Gymraeg [PDF 1,000 KB]
[55] Cofnod y Trafodion: Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol - 11 Ionawr 2024, paragraff 8

Cymunedau Cymraeg[56] yn helpu i nodi lle mae'r llywodraeth ar ei thaith tuag at 2050.[57]

**53.** Buom hefyd yn trafod gyda'r Gweinidog sut y cafodd targed Cymraeg 2050 ei ymgorffori ar draws y llywodraeth. Amlinellodd y Gweinidog enghreifftiau o waith sy'n digwydd ar draws adrannau eraill y llywodraeth.[58] Dywedodd wrthym:

> *"… un o'n pethau rŷn ni'n ceisio'i wneud yw symud o'r syniad yma mai rhywbeth o ran compliance yw polisi'r Gymraeg, hynny yw beth yw'r impact—ydy hwn yn cyd-fynd â pholisïau'r Llywodraeth, fel bod dealltwriaeth fwy soffistigedig, os hoffwch chi, o'r impact positif neu negyddol ar y Gymraeg o unrhyw ddatblygiad polisi."*[59]

**54.** Fe wnaethom hefyd ofyn i'r Gweinidog beth yw'r cam mwyaf y gallai Llywodraeth Cymru ei wneud i sicrhau bod gwaith Cymraeg 2050 trawslywodraethol yn datblygu ymhellach. Dywedodd wrthym fod y gwaith presennol yn gadarnhaol a bod cyflymder o fewn y llywodraeth wedi newid. Ychwanegodd mai'r nod yw sicrhau bod pob adran yn gweld yr iaith fel rhan annatod o ddatblygu unrhyw bolisi.[60]

**55.** Aethom ar drywydd hyn ymhellach drwy ofyn sut mae Llywodraeth Cymru yn blaenoriaethu'r iaith o safbwynt y gyllideb. Er enghraifft, sut y byddem yn gwybod am effaith toriadau mewn adrannau eraill, sydd y tu hwnt i gyfrifoldeb y Gweinidog, ar y Gymraeg. Yn ei ymateb, dywedodd wrthym:

> *"dwi ddim yn credu bod mecanwaith gyda ni i gyflwyno i'r pwyllgor hwn beth yw'r toriadau sydd yn digwydd yng nghyllidebau Gweinidogion eraill sydd yn cael effaith ar y Gymraeg, ond mae'r her yn un deg."*[61]

[56] Comisiwn Cymunedau Cymraeg
[57] Cofnod y Trafodion: Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol - 11 Ionawr 2024, paragraff 10
[58] Cofnod y Trafodion: Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol - 11 Ionawr 2024, paragraff 26
[59] Cofnod y Trafodion: Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol - 11 Ionawr 2024, paragraff 26
[60] Cofnod y Trafodion: Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol - 11 Ionawr 2024, paragraff 33
[61] Cofnod y Trafodion: Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol - 11 Ionawr 2024, paragraff 36

**56.** Yn dilyn y drafodaeth hon, fe wnaethom ysgrifennu at y Gweinidog yn nodi y byddai o fudd cael dealltwriaeth lawnach o'r ystod o weithgareddau a gwariant ar draws adrannau'r llywodraeth sy'n cyfrannu at amcanion Cymraeg 2050. Nodwyd gennym ei bod yn bwysig inni fod gennym wybodaeth am effaith ehangach toriadau yng nghyllideb adrannau eraill y llywodraeth ar ddatblygu polisi ac ymyriadau o ran y Gymraeg.[62]

## Cyllid ar gyfer Comisiynydd y Gymraeg

**57.** Fe wnaethom ofyn i'r Gweinidog pa effaith y bydd y gostyngiad mewn cyllid ar gyfer Comisiynydd y Gymraeg yn ei chael ar swyddogaethau'r Comisiynydd, adnoddau staffio ac a fydd unrhyw swyddi'n cael eu colli.

**58.** Roedd y Gweinidog yn cydnabod nad oes gan y Comisiynydd lawer o opsiynau o ran ymdrin â gostyngiadau cyllidebol. Cadarnhaodd y Gweinidog mai ei ddealltwriaeth ef oedd y bydd y Comisiynydd yn rheoli'r gyllideb staffio drwy beidio â llenwi swyddi gwag neu recriwtio. Byddai hyn yn ddull amgen o golli swyddi ymhlith y gweithlu presennol.[63]

**59.** Dywedodd y Gweinidog wrthym hefyd fod y gyllideb graidd yn ddigonol i fodloni gofynion rheoleiddio'r Comisiynydd o dan gyfundrefn Safonau'r Gymraeg. Ychwanegodd ei fod yn derbyn nad yw'r cyllid, yn hyn o beth, yn ddigonol ond y gall y Comisiynydd wneud ceisiadau am gyllid ychwanegol i fodloni gofynion statudol, fel sy'n digwydd o bryd i'w gilydd.[64]

## Ein Barn Ni

**60.** Rydym yn croesawu didwylledd a gonestrwydd y Gweinidog yn ystod ein sesiwn dystiolaeth. Rydym yn derbyn bod penderfyniadau anodd iawn i'w gwneud o ystyried yr hinsawdd ariannol, rydym yn credu fodd bynnag, bod tri maes penodol y mae angen ailedrych arnynt.

### Prentisiaethau ac addysg ôl-16

**61.** Pan gyhoeddwyd cyllid ychwanegol i ddatblygu darpariaeth Gymraeg yn y sector ôl-16, roeddem yn croesawu'r buddsoddiad hwn.[65] Roedd hwn yn faes

[62] Llythyr at Weinidog y Gymraeg ac Addysg - Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2024-25 – 16 Ionawr 2024 [PDF 98 KB]
[63] Cofnod y Trafodion: Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol - 11 Ionawr 2024, paragraff 106
[64] Cofnod y Trafodion: Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol - 11 Ionawr 2024, paragraff 108
[65] Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2022-23

polisi o ran y Gymraeg a gafodd ei esgeuluso yn llawer rhy hir, er gwaethaf tystiolaeth glir o'i bwysigrwydd o ran sicrhau cynnydd y Gymraeg i addysg bellach ac uwch.

**62.** Bydd tynnu'r cyllid ychwanegol hwn yn ôl yn rhwystro cynnydd, ac yn cyfyngu ar gyfleoedd i ddysgwyr gael gafael ar ddarpariaeth Gymraeg yn y sector hwn. Byddai hyn yn digwydd er gwaethaf cynnydd sylweddol mewn cyfleoedd i ymgymryd â rhan, neu'r cyfan, o'u prentisiaeth neu addysg bellach, yn Gymraeg, fel yr amlinellwyd gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol.

**63.** Credwn ei bod yn anffodus y penderfynwyd atal cyllid pellach, ar yr union adeg pan mae tystiolaeth glir o gynnydd a fydd yn cefnogi targedau Cymraeg 2050. Mae sicrhau twf parhaus yn nifer y dysgwyr sy'n ymgymryd â rhywfaint neu'r cyfan o'u haddysg ôl-16 yn Gymraeg, yn hanfodol, ac yn arbennig mewn prentisiaethau a dysgu seiliedig ar waith. Credwn y dylai Llywodraeth Cymru asesu effaith ddisgwyliedig y penderfyniad ariannu hwn ar nifer y dysgwyr a fydd yn gallu cael gafael ar ddarpariaeth o'r fath.

**64.** Mewn llythyr at y Pwyllgor ar 26 Ionawr 2024, cadarnhaodd y Gweinidog fod Llywodraeth Cymru wedi dechrau casglu'r wybodaeth hon. Caiff ei rhoi i ni erbyn diwedd mis Chwefror 2024.[66]

**Argymhelliad 4.** Dylai Llywodraeth Cymru, fel rhan o’r gwaith o gasglu gwybodaeth am effaith toriadau i’r gyllideb ar dargedau Cymraeg 2050, ddarparu asesiad o effaith bosibl penderfyniadau cyllido ar nifer y dysgwyr sy'n gallu cael gafael ar ddarpariaeth ôl-16 yn Gymraeg, ac, yn benodol, prentisiaethau.

## Cymraeg 2050

**65.** Er mwyn i Cymraeg 2050 fod yn llwyddiant, mae angen prif ffrydio nodau ac amcanion y strategaeth ar draws gwaith holl adrannau'r Llywodraeth. Mae gan bob Gweinidog a Dirprwy Weinidog ran bwysig i'w chwarae wrth gefnogi datblygiad a thwf yr iaith, i helpu i feithrin gallu i siarad Cymraeg a chreu cyfleoedd i'w defnyddio ledled Cymru. Ar hyn o bryd, nid yw'r cyfraniad y mae pob adran o'r Llywodraeth yn ei wneud i amcanion Cymraeg 2050, ac effaith y gwaith hwnnw ar ddatblygiad y Gymraeg. yn glir i ni.

[66] Ymateb gan Weinidog y Gymraeg ac Addysg – Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2024-25 – 26 Ionawr 2024 [PDF 139 KB]

**66.** Er mwyn i Lywodraeth Cymru barhau i wneud y cynnydd sydd ei angen i gyflawni amcanion Cymraeg 2050, rhaid cynnal safon yr ymrwymiad a'r lefel o gydweithio ar draws y Llywodraeth gyfan. Rydym yn pryderu nad yw gweithgarwch sy'n cyfrannu at y nod hwn yn cael ei gofnodi'n iawn, neu'n waeth na hynny, nad yw'n gwbl hysbys neu'n cael ei ddeall. Er mwyn sicrhau llwyddiant strategaeth Cymraeg 2050, rhaid i Lywodraeth Cymru weithredu i gael gwell dealltwriaeth o lwyddiant cymharol yr ymyriadau sy'n anelu at hyrwyddo mwy o ddefnydd o'r Gymraeg, ac effaith penderfyniadau gwariant ar y Gymraeg mewn meysydd polisi gwahanol.  Heb y wybodaeth hon, nid yw'n glir i ni y gall y Gweinidog gynnal gwerthusiad effeithiol o effaith debygol y penderfyniad gwariant a gaiff ei wneud ar draws y llywodraeth fel rhan o ailflaenoriaethu cyllidebau.

**Argymhelliad 5.** Mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru ddarparu asesiad o effaith gwariant ar y Gymraeg ar draws portffolios y llywodraeth, a nodi sut y mae'n bwriadu monitro effaith penderfyniadau gwariant ar draws meysydd polisi yng Nghyllidebau Drafft y dyfodol.

## Comisiynydd y Gymraeg

**67.** Mae'r gostyngiad arfaethedig yn y gyllideb ar gyfer pob Comisiynydd yn 2024-25 wedi'i osod ar bump y cant. Fodd bynnag, rydym yn pryderu nad yw'r penderfyniad cyffredinol hwn yn ystyried cyfrifoldebau rheoleiddiol ychwanegol Comisiynydd y Gymraeg o'i gymharu â Chomisiynwyr eraill.

**68.** Mae fframwaith rheoleiddio'r Gymraeg yn newid yn barhaus. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae ymgymerwyr dŵr a charthffosiaeth sy'n gweithredu yng Nghymru wedi'u cynnwys o fewn cyfundrefn safonau'r Gymraeg.  Rydym yn disgwyl y bydd trafnidiaeth gyhoeddus yn cael ei hychwanegu at y gyfundrefn yn y dyfodol agos. Rydym yn pryderu bod disgwyl i Gomisiynydd y Gymraeg wneud mwy, gyda llai o gyllid. Byddem yn holi pryd mae swyddogaethau'r Comisiynydd yn cael eu cyfaddawdu gan ddiffyg adnoddau; mae hyn yn berthnasol i swyddogaethau statudol ac anstatudol.

**69.** Rydym yn croesawu cydnabyddiaeth y Gweinidog nad oes gan Gomisiynydd y Gymraeg lawer o opsiynau ar gyfer rheoli'r gostyngiadau yn y gyllideb a gynigir ar gyfer 2024-25. Rydym hefyd yn nodi y gall y Comisiynydd ofyn am gyllid ychwanegol o gronfeydd wrth gefn Llywodraeth Cymru, os oes angen, fel sydd wedi digwydd o'r blaen. Fodd bynnag, rydym wedi mynegi

pryderon yn y gorffennol ynghylch addasrwydd y dull hwn, a'r risg i annibyniaeth y Comisiynydd pe bai'n mynd â Llywodraeth Cymru i gyfraith.[67]

**70.** Credwn y dylai Comisiynydd y Gymraeg gael arian digonol i allu cyflawni'r swyddogaethau statudol ac anstatudol yn effeithiol. Yn absenoldeb cyllid o'r fath, rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn amlinellu sut y mae wedi cyfrif am rolau statudol ychwanegol y Comisiynydd wrth benderfynu lleihau cyllidebau yn unol â Chomisiynwyr eraill Cymru. Yn ychwanegol, byddem yn gofyn i Lywodraeth Cymru esbonio sut y mae wedi ystyried gallu'r Comisiynydd i ymgymryd â swyddogaethau anstatudol, a pha rai o'r rhain allai ddod i ben os na ddarperir y lefelau priodol o gyllid.

**Argymhelliad 6.** Rhaid i Lywodraeth Cymru esbonio sut y gwnaeth gyfrif am y swyddogaethau statudol ychwanegol o fewn cylch gwaith Comisiynydd y Gymraeg, wrth benderfynu lleihau'r gyllideb yn unol â Chomisiynwyr eraill.

**Argymhelliad 7.** Mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru esbonio sut y mae wedi adolygu gallu Comisiynydd y Gymraeg i ddarparu y tu hwnt i'w swyddogaethau statudol, a pha rai o'r rhain allai ddod i ben os na fyddai cyllid ar gael.

[67] Llythyr at Gomisiynydd y Gymraeg – Gwaith craffu blynyddol dilynol – 5 Rhagfyr 2023 [PDF 123 KB]

# 4. Diwylliant, Cyfathrebu a Chwaraeon

**71.** Mae elfennau Diwylliant, Cyfathrebu a Chwaraeon ein cylch gorchwyl yn cwmpasu tri o feysydd gwariant Llywodraeth Cymru: diwylliant a'r celfyddydau, chwaraeon a gweithgarwch corfforol, a'r amgylchedd hanesyddol.

## Trosolwg o'r dyraniadau

**72.** At ei gilydd, dyrannwyd £120.6 miliwn o gyllid refeniw ar gyfer Diwylliant, Cyfathrebu a Chwaraeon yn y Gyllideb Ddrafft ar gyfer 2024-25. Mae hyn wedi gostwng o £130.6 miliwn a ddyrannwyd ar gyfer gwariant refeniw yn y Gyllideb Derfynol ar gyfer 2023-24. Mae hwn yn ostyngiad o 7.7 y cant mewn termau arian parod. Fodd bynnag, mae cyllid cyfalaf wedi'i osod ar £54.2 miliwn yn y Gyllideb Ddrafft ar gyfer 2024-25, sy’n gynnydd o 6.3 y cant mewn termau arian parod o'r £51 miliwn a ddyrannwyd yn y Gyllideb Derfynol ar gyfer 2023-24.

**73.** Mae cyllid refeniw a chyfalaf cyffredinol ar gyfer 2024-25 wedi'i osod ar £174.8 miliwn, sy'n ostyngiad o 3.7 y cant mewn termau arian parod o £181.6 miliwn a ddyrannwyd yn y Gyllideb Derfynol ar gyfer 2023-24.

### Diwylliant a'r celfyddydau

**74.** Mae gwariant ar gyfer diwylliant a'r celfyddydau yn cynnwys cyllid ar gyfer Cyngor Celfyddydau Cymru, Amgueddfa Cymru, y Llyfrgell Genedlaethol, cefnogaeth i ddiwylliant a chwaraeon lleol a Cymru Greadigol. Dyrannwyd £83.9 miliwn mewn cyllid refeniw ar gyfer diwylliant a'r celfyddydau yn y Gyllideb Ddrafft ar gyfer 2024-25. Mae hyn yn ostyngiad o'r £89.7 miliwn a ddyrannwyd yn y Gyllideb Derfynol ar gyfer 2023-24, sy’n ostyngiad o 6.5 y cant mewn termau arian parod. Dros yr un cyfnod, mae cyllid cyfalaf wedi'i osod ar £37.1 miliwn yn 2024-25, sy'n gynnydd o 9.4 y cant yn nhermau arian parod o'i gymharu â'r £33.9 miliwn a ddyrannwyd yn y Gyllideb Derfynol ar gyfer 2023-24.

### Yr amgylchedd hanesyddol

**75.** Mae’r amgylchedd hanesyddol, a ariennir yn bennaf drwy Cadw (adran treftadaeth Llywodraeth Cymru), hefyd yn cynnwys yr Ardd Fotaneg Genedlaethol a Chomisiwn Brenhinol Henebion Cymru. Mae'r Gyllideb Ddrafft ar gyfer 2024-25 yn dyrannu £14.9 miliwn ar gyfer cyllid refeniw, i lawr o'r £17.1 miliwn a ddyrannwyd yn y Gyllideb Derfynol ar gyfer 2023-24. Mae hyn yn ostyngiad o 12.9 y cant mewn termau arian parod. Mae’r cyllid cyfalaf yn aros yn £10.3 miliwn.

### Chwaraeon ac ymarfer corff

**76.** Mae'r cyllid ar gyfer chwaraeon ac ymarfer corff yn cynnwys cyllid ar gyfer Chwaraeon Cymru. Mae'r Gyllideb Ddrafft ar gyfer 2024-25 yn dyrannu cyllid refeniw o £21.8 miliwn, i lawr o'r 8.4 y cant yn erbyn y £23.8 miliwn a ddyrannwyd yn y Gyllideb Derfynol ar gyfer 2023-24. Dros yr un cyfnod, mae cyllid cyfalaf yn parhau i fod yn £6.8 miliwn.

## Blaenoriaethu gwariant ar ddiogelu casgliadau cenedlaethol

**77.** Mae ein dadansoddiad o Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2024-25 yn awgrymu bod Llyfrgell Genedlaethol Cymru ac Amgueddfa Cymru yn wynebu gostyngiadau refeniw o chwech y cant o'i gymharu â Chyllideb Derfynol 2023-24. Mae Cyngor Celfyddydau Cymru yn wynebu gostyngiad refeniw o naw y cant dros yr un cyfnod. Mae cyllid cyfalaf ar gyfer y tri sefydliad yn parhau ar yr un lefel â'r flwyddyn flaenorol.

**78.** Yn dilyn cyhoeddi'r Gyllideb Ddrafft, dywedodd Cyngor y Celfyddydau bod ei gyllideb yn is nag yr oedd yn 2010. Mae'r Cyngor yn nodi bod hyn yn golygu ei fod wedi colli traean o'i gyllid mewn termau real ers 2010.[68] Mewn sesiwn dystiolaeth gyda ni ym mis Rhagfyr 2023, dywedodd Amgueddfa Cymru:

> *"We're having to look at a restructuring of the museum and a remodelling of what we do, in order to be able to adapt to what we think will be a new financial landscape. And that means we're going to have to probably be a smaller museum."*[69]

**79.** Yn yr un modd, dywedodd y Llyfrgell Genedlaethol wrthym y gallai fod angen iddi ddod â'i strategaeth gyfredol i ben yn gynnar, ac efallai y bydd yn rhaid iddi weithredu fel llyfrgell lai.[70]

**80.** Ymhellach i hyn, ym mis Chwefror 2023, dywedodd Amgueddfa Cymru wrthym:

[68] Ymateb Cyngor Celfyddydau Cymru i'r Gyllideb Gymreig
[69] Cofnod y Trafodion: Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol - 6 Rhagfyr 2023, paragraff 183
[70] Cofnod y Trafodion: Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol - 23 Tachwedd 2023, paragraff 45

> *"er mwyn rhoi sicrwydd ynghylch y casgliad cenedlaethol, mae angen £90m ychwanegol o arian cyfalaf ar Amgueddfa Cymru dros weddill y degawd hwn."*[71]

**81.** Yn ôl ein dadansoddiad, os bydd cyllid cyfalaf yn aros yn wastad am weddill y degawd, bydd y cyllid cyfalaf gwirioneddol ar gyfer yr Amgueddfa wedi bod tua £35 miliwn.

**82.** Rydym wedi codi pryderon gyda'r Dirprwy Weinidog cyn hyn ynghylch diogelu casgliadau cenedlaethol[72] yn y Llyfrgell Genedlaethol ac Amgueddfa Cymru. Yn ystod ein sesiwn dystiolaeth, cadarnhaodd y Dirprwy Weinidog fod £5 miliwn wedi'i ddyrannu yn y flwyddyn ariannol bresennol, ac ar gyfer y flwyddyn nesaf (2024-25), i Amgueddfa Cymru i fynd i'r afael â'r materion mwyaf brys.[73] O ran y Llyfrgell Genedlaethol, nododd y Dirprwy Weinidog fod £0.5 miliwn wedi'i ddarparu ar gyfer system larwm tân newydd, ac £1.5 miliwn ar gyfer gwaith cyfalaf brys eraill.[74]

**83.** Fodd bynnag, cyfaddefodd y Dirprwy Weinidog mewn perthynas â'r cyllid a ddarparwyd:

> *"It's doing the emergency work and prioritising the emergency work as best we can…"*[75]

**84.** Yn dilyn ein sesiwn dystiolaeth gyda nhw, fe wnaethom ofyn i'r Gweinidog a'r Dirprwy Weinidog pam nad ydynt yn blaenoriaethu'r angen i fynd i'r afael â'r risgiau presennol i'r casgliadau cenedlaethol dros rai o'r ymrwymiadau gwariant newydd maen nhw wedi'u gwneud. Fe wnaethom ofyn pa ystyriaeth yr oeddent wedi'i rhoi i oedi ymrwymiadau eraill, fel Amgueddfa'r Gogledd, dros warchod yr eitemau gwerthfawr sydd eisoes yn y casgliad cenedlaethol.[76]

---

[71] Llythyr at Gadeirydd y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru ynghylch craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2023-24 [PDF 300 KB]
[72] Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol – Diogelu'r casgliadau cenedlaethol
[73] Cofnod y Trafodion: Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol - 17 Ionawr 2025, paragraff 160
[74] Cofnod y Trafodion: Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol - 17 Ionawr 2024, paragraff 174
[75] Cofnod y Trafodion: Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol - 17 Ionawr 2024, paragraff 176
[76] Llythyr at Weinidog yr Economi a Dirprwy Weinidog y Celfyddydau, Chwaraeon a Thwristiaeth – Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2024-25 – 18 Ionawr 2024 [PDF 100 KB]

**85.** Wrth ymateb, dywedodd y Gweinidog a'r Dirprwy Weinidog wrthym fod Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio gydag Amgueddfa Cymru a'r Llyfrgell Genedlaethol i ddeall eu hanghenion cynnal a chadw hirdymor. Fe ddywedon nhw y caiff popeth ei wneud i gefnogi'r sefydliadau hyn, pan mae cyllid ychwanegol ar gael.[77] Fe ddywedon nhw wrthym hefyd eu bod yn :

> *"… cydnabod yr heriau y mae Amgueddfa Cymru a'r Llyfrgell Genedlaethol yn eu hwynebu wrth gynnal ystad hanesyddol ac felly'n diogelu'r casgliadau yn eu gofal. Byddaf yn parhau i edrych ar rai o'n hymrwymiadau gwariant presennol, megis ar gyfer Amgueddfa Gogledd Cymru."[78]*

## Strategaeth Ddiwylliant

**86.** Mae bron i dair blynedd wedi mynd heibio ers i Lywodraeth Cymru ymrwymo i Strategaeth Ddiwylliant newydd i ymgysylltu â'r sectorau celfyddydau, diwylliant a threftadaeth fel rhan o'i Rhaglen Lywodraethu.[79] Mabwysiadwyd hyn wedyn fel rhan o'r Cytundeb Cydweithio.[80] Yn ystod ein sesiwn graffu, fe wnaethom ofyn i'r Dirprwy Weinidog am yr oedi wrth gyhoeddi'r strategaeth. Dywedodd wrthym:

> *"…"our initial projection of this taking about six months was wildly optimistic. And so that was the primary reason for that—the need to get this right and to consult all of the right people."[81]*

**87.** Fe wnaethom ofyn hefyd pa elfennau o'r strategaeth a fyddai ddim yn cael eu datblygu mwyach o ganlyniad i ostyngiadau yn y gyllideb. Dywedodd y Dirprwy Weinidog wrthym:

> *"…what we were seeking to do was to set out not just a culture strategy for my department but something that would impact on every governmental department… we would embed the cultural*

[77] Ymateb gan Weinidog yr Economi a Dirprwy Weinidog y Celfyddydau, Chwaraeon a Thwristiaeth – Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2024-25 – 29 Ionawr 2024 [PDF 201 KB]
[78] Ymateb gan Weinidog yr Economi a Dirprwy Weinidog y Celfyddydau, Chwaraeon a Thwristiaeth – Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2024-25 – 29 Ionawr 2024 [PDF 201 KB]
[79] Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru: 2021-26
[80] Llywodraeth Cymru a Phlaid Cymru - Y Cytundeb Cydweithio
[81] Cofnod y Trafodion: Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol - 17 Ionawr 2024, paragraff 51

> *elements of life in Wales across every ministerial portfolio, but every ministerial portfolio is facing similar budgetary challenges. Therefore, we're having to look at all of that as well. So, it's difficult for me to give you that kind of detail at this stage, because at the moment we don't know what's actually going to appear in the final draft."*[82]

**88.** Yn dilyn ein sesiwn dystiolaeth, fe wnaethom ofyn i'r Gweinidog a'r Dirprwy Weinidog pa newidiadau y maent yn eu gwneud i'r strategaeth yng ngoleuni cyllidebau llai. Fe wnaethom hefyd ofyn, beth sydd wedi newid o ran eu disgwyliadau o'r cyrff hyd braich ynglŷn â'r strategaeth.[83] Mewn ymateb, dywedon nhw wrthym y byddent yn:

> *"… cydbwyso'r angen i ddarparu cyfeiriad strategol ac i gynnal y weledigaeth a'r uchelgeisiau tymor hir a gynhwysir yn y strategaeth ddrafft gyda dull pragmatig o weithredu i gefnogi cyflawni'r uchelgeisiau hyn y gellid eu datblygu yn y tymor byr …[ac] yn adolygu Llythyrau Cylch Gwaith yn dilyn Setliad y Gyllideb."*[84]

## Cyrff hyd braich

**89.** Mae'r holl gyrff hyd braich yn ein cylch gwaith i gyd yn wynebu gostyngiadau refeniw yn y flwyddyn nesaf. Mae'r swm gwirioneddol yn amrywio ar gyfer pob corff hyd braich. Yn ystod y broses graffu ar gyfer Cyllideb Ddrafft 2024-25, ac mewn sesiynau craffu yn ystod hydref 2023, mae nifer o'r cyrff hyn wedi gwneud sylwadau a oedd yn codi pryderon ynghylch diswyddiadau posibl.

**90.** Fel rydym eisoes wedi amlinellu, rhybuddiodd Amgueddfa Cymru a'r Llyfrgell Genedlaethol efallai y byddai'n rhaid iddynt fod yn sefydliadau llai yng ngoleuni cyfyngiadau cyllidebol. Dywedodd Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru ("y Comisiwn Brenhinol") wrthym y byddai'n rhaid iddo, o ystyried setliad ei gyllideb, wneud diswyddiadau erbyn Nadolig 2024 er mwyn mantoli'r cyfrifon.[85]

---

[82] Cofnod y Trafodion: Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol - 17 Ionawr 2024, paragraff 54
[83] Llythyr at Weinidog yr Economi a Dirprwy Weinidog y Celfyddydau, Chwaraeon a Thwristiaeth – Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2024-25 – 18 Ionawr 2024 [PDF 100 KB]
[84] Ymateb gan Weinidog yr Economi a Dirprwy Weinidog y Celfyddydau, Chwaraeon a Thwristiaeth – Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2024-25 – 29 Ionawr 2024 [PDF 201 KB]
[85] Llythyr gan Gomisiwn Brenhinol Henebion Cymru: Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2024–25 – 10 Ionawr 2024 [PDF 159 KB]

**91.** Fe wnaethom ofyn i'r Gweinidog a'r Dirprwy Weinidog pa drafodaethau y maent wedi'u cael gyda chyrff hyd braich ynghylch diswyddiadau. Mewn ymateb, dywedwyd wrthym fod cyrff hyd braich, ar wahân i Chwaraeon Cymru, yn ymgynghori â staff ynghylch cynlluniau diswyddo gwirfoddol i ddod i ben yn y flwyddyn ariannol hon. Cawsom wybod hefyd bod gwaith ar y gweill i weld a oes modd sicrhau bod cyllid ychwanegol ar gael yn y flwyddyn ariannol hon i helpu gyda chostau o'r fath, ond nad oes cyllid ar gael ar gyfer hyn yn 2024-25.[86]

**92.** Yn ein sesiwn dystiolaeth, fe wnaethom hefyd ofyn a fydd y llythyrau cylch gwaith ar gyfer y cyrff hyd braich yn cael eu diwygio yng ngoleuni'r gostyngiadau yn y gyllideb a gyflwynwyd. Cadarnhaodd y Dirprwy Weinidog y byddai ond yn deg ailedrych ar y llythyrau cylch gwaith hynny, o ystyried y newid mewn amgylchiadau.[87]

## Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru

**93.** Yn ystod ein gwaith craffu ar y Gyllideb Ddrafft, fe wnaethom ystyried gohebiaeth gan Gomisiwn Brenhinol Henebion Cymru.[88] Mae gan y Comisiwn Brenhinol nifer o swyddogaethau statudol. Mae'n ofynnol, er enghraifft, iddo ddarparu cofnod o adeiladau hanesyddol ac archaeoleg yng Nghymru, ac mae ganddo hefyd ddyletswyddau statudol o dan y Ddeddf Cofnodion Cyhoeddus sy'n ymwneud â Chofnod Henebion Cenedlaethol Cymru.

**94.** Yn ei lythyr, mae'n nodi y byddai ei setliad drafft ar gyfer 2024-25 yn arwain at ostyngiad o 22 y cant yn ei gyllid o'i gymharu â Chyllideb Derfynol 2023-24. Byddai'r toriad hwn yn golygu y byddai angen iddo gymryd camau i leihau ei staffio 29 y cant er mwyn osgoi mynd heb arian erbyn mis Rhagfyr 2024.[89]

**95.** Y tu hwnt i'w rolau statudol, mae'r Comisiwn Brenhinol hefyd yn chwarae rhan allweddol mewn nifer o brosiectau pwysig, sydd hefyd yn amcanion gan Lywodraeth Cymru. Mae'r rhain yn cynnwys prosiect newid hinsawdd CHERISH, llunio'r ddogfen dystiolaeth a helpodd i sicrhau statws UNESCO yng ngogledd-orllewin Cymru, a chyflawni Prosiect Treftadaeth Asiaidd Cymru.

[86] Ymateb gan Weinidog yr Economi a Dirprwy Weinidog y Celfyddydau, Chwaraeon a Thwristiaeth – Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2024-25 – 29 Ionawr 2024 [PDF 201 KB]
[87] Cofnod y Trafodion: Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol - 17 Ionawr 2024, paragraff 65
[88] Llythyr gan Gomisiwn Brenhinol Henebion Cymru: Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2024–25 – 10 Ionawr 2024 [PDF 159 KB]
[89] Llythyr gan Gomisiwn Brenhinol Henebion Cymru: Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2024–25 – 10 Ionawr 2024 [PDF 159 KB]

**96.** Fe wnaethom ofyn i Lywodraeth Cymru pam mae'r Comisiwn Brenhinol wedi cael ei neilltuo ar gyfer gostyngiad o'r fath, o'i gymharu â chyrff eraill fel Amgueddfa Cymru a'r Llyfrgell Genedlaethol. Fe wnaethom ofyn i Lywodraeth Cymru, o ystyried statws y Comisiwn Brenhinol fel sefydliad a ddiogelir gan statud, ailystyried y gostyngiad arfaethedig yn ei gyllideb, a'i leihau o 22 y cant i 10 y cant. Byddai hyn yn sicrhau cydraddoldeb â'i bartneriaid yn y sector ehangach. Fe wnaethom hefyd ofyn pa gymorth ariannol y gall y llywodraeth ei ddarparu ar gyfer rhaglen ddiswyddo wirfoddol.[90]

## Oriel Celf Gyfoes Genedlaethol

**97.** O ystyried y cyfyngiadau cyllidebol a amlinellir yn y Gyllideb Ddrafft ar gyfer 2024-25, fe wnaethom hefyd ofyn am wybodaeth o ran cynlluniau ar gyfer yr Oriel Celf Gyfoes Genedlaethol. Cadarnhaodd y Dirprwy Weinidog fod cyllideb lai wedi'i dyrannu ar gyfer yr oriel, a bod gwaith yn mynd rhagddo i ganfod sut y gall leihau ei dibyniaeth ar gyllid y sector cyhoeddus. Cadarnhaodd y Dirprwy Weinidog hefyd nad oes ymrwymiad cyllid refeniw mawr ar yr oriel wasgaredig tan 2025. Bydd yr achos busnes llawn ar gyfer yr oriel wasgaredig yn cael ei dderbyn erbyn diwedd mis Ionawr 2024.[91]

**98.** Dywedodd y Dirprwy Weinidog wrthym hefyd o ran y safle angor:

> *"…I have to be honest with you, I think is more of a challenge, because that is, potentially, a significant capital investment, and, again, we are still hoping to have a decision on that by the end of March; our original timetable was that we'd have a decision by the end of March. But I think, where we're at at the moment, we may have to revise and revisit those proposals."*[92]

**99.** Yn dilyn ein sesiwn dystiolaeth, fe wnaethom ofyn am sicrwydd na fyddai unrhyw oedi pellach yn yr amserlen ar gyfer safle angor yr Oriel Celf Gyfoes Genedlaethol.[93] Mewn ymateb, dywedwyd wrthym bod sicrwydd wedi'i roi y byddant mewn sefyllfa i wneud penderfyniadau ym mis Mawrth 2024, ac y bydd

---

[90] Llythyr at Weinidog yr Economi a Dirprwy Weinidog y Celfyddydau, Chwaraeon a Thwristiaeth – Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2024-25 – 24 Ionawr 2024 [PDF 336 KB]
[91] Cofnod y Trafodion: Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol - 17 Ionawr 2024, paragraff 205
[92] Cofnod y Trafodion: Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol - 17 Ionawr 2024, paragraff 206
[93] Llythyr at Weinidog yr Economi a Dirprwy Weinidog y Celfyddydau, Chwaraeon a Thwristiaeth – Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2024-25 – 18 Ionawr 2024 [PDF 100 KB]

adnoddau'n cael eu darparu i ddatblygu'r achos busnes ar gyfer y safle dewisol yn 2024-25.[94]

## Tâl mynediad i atyniadau

**100.** Cadarnhaodd y Dirprwy Weinidog, yn ystod ein sesiwn dystiolaeth, fod Amgueddfa Cymru eisoes wedi holi am gyflwyno tâl mynediad. Cadarnhaodd y Dirprwy Weinidog ei bod wedi gofyn i'r Amgueddfa archwilio'r mater, a chadarnhaodd bod gan y Llyfrgell Genedlaethol weithiwr penodol i ganfod ffyrdd o gynhyrchu incwm ychwanegol.[95]

**101.** O ran cyflwyno tâl mynediad yn Amgueddfa Cymru, sy'n ddi-dâl ar hyn o bryd, dywedodd y Dirprwy Weinidog wrthym:

> *"…it is not something that we would be considering or asking the museum to look at and to consider if it were not in a critical situation and the budget situation was such that this was an option that had to be on the table. Now, I'm not saying that that's where we will end up, but it would not be responsible of me to rule that out at this stage or to suggest to the museum that they shouldn't be exploring that."*[96]

**102.** Cadarnhaodd y Dirprwy Weinidog hefyd pe bai'n digwydd, y byddai'n rhaid ystyried system o eithriadau er mwyn sicrhau tegwch.[97] Byddai eithriadau o'r fath yn cynnwys sicrhau bod y rhai sydd â llai o fodd i fforddio'r tâl mynediad yn gallu mynd i mewn i'r amgueddfa.[98]

**103.** Yn dilyn ein sesiwn dystiolaeth, fe wnaethom ysgrifennu at y Gweinidog a'r Dirprwy Weinidog yn gofyn am amlinelliad o drafodaethau o'r fath sydd wedi digwydd, a pha fodelau sydd wedi llywio'r trafodaethau hyn.[99] Mewn ymateb, dywedwyd wrthym fod Amgueddfa Cymru yn archwilio'r holl opsiynau codi arian

---

[94] Ymateb gan Weinidog yr Economi a Dirprwy Weinidog y Celfyddydau, Chwaraeon a Thwristiaeth – Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2024-25 – 29 Ionawr 2024 [PDF 201 KB]
[95] Cofnod y Trafodion: Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol - 17 Ionawr 2024, paragraffau 152 - 154
[96] Cofnod y Trafodion: Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol - 17 Ionawr 2024, paragraff 154
[97] Cofnod y Trafodion: Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol - 17 Ionawr 2024, paragraff 154
[98] Cofnod y Trafodion: Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol - 17 Ionawr 2024, paragraff 156
[99] Llythyr at Weinidog yr Economi a Dirprwy Weinidog y Celfyddydau, Chwaraeon a Thwristiaeth – Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2024-25 – 18 Ionawr 2024 [PDF 100 KB]

i greu incwm, ac mai un ohonynt yw codi tâl mynediad i rai neu bob un o'i safleoedd.[100]

## Cefnogaeth i ddiwylliant a hamdden lleol

**104.** Fe wnaethom godi pryderon gyda'r Gweinidog a'r Dirprwy Weinidog bod awdurdodau lleol, fel cyrff sydd â chyfrifoldeb dros ddarparu gwasanaethau diwylliant a hamdden lleol, hefyd wedi bod yn destun gostyngiadau yn y gyllideb dros y degawd diwethaf a mwy. O ystyried hyn, fe wnaethom ofyn pa sgyrsiau oedd wedi digwydd gyda llywodraeth leol o ran pwysau ariannol ar gyfer y gwasanaethau hyn.

**105.** Dywedodd y Dirprwy Weinidog wrthym, er mai hwy sy'n gosod polisi, bod ariannu gwasanaethau o'r fath yn cael ei ddarparu gan lywodraeth leol a'u cyllid.[101] Ychwanegodd y Dirprwy Weinidog:

> *"...the point about local government being one of the priority areas, you would hope would follow through in terms of the support they're able to give to cultural and leisure facilities, but that absolutely is a matter for local authorities and whatever their priorities are within their budget constraints, which we know are really difficult."*[102]

**106.** Dywedodd y Dirprwy Weinidog hefyd wrthym fod sgyrsiau rheolaidd yn digwydd a bod cymorth ar gael i gynorthwyo gydag effeithlonrwydd ynni. Nodwyd y gall hyn fod yn ateb i rai o'r anawsterau y maent yn eu hwynebu.[103]

## Ein Barn Ni

**107.** Fel Pwyllgor, rydym yn cydnabod y penderfyniadau eithriadol o anodd y mae'n rhaid eu gwneud ynghylch cyllideb y flwyddyn nesaf. O ystyried y wasgfa ar gyllid cyhoeddus, nid yw'r rhain yn benderfyniadau hawdd i unrhyw un eu gwneud. Ar ôl degawd o gyllidebau'n cael eu lleihau mewn termau ariannol, a phan fu'n rhaid i sefydliadau wneud newidiadau i'w gweithrediadau a

---

[100] Ymateb gan Weinidog yr Economi a Dirprwy Weinidog y Celfyddydau, Chwaraeon a Thwristiaeth – Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2024-25 – 29 Ionawr 2024 [PDF 201 KB]
[101] Cofnod y Trafodion: Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol - 17 Ionawr 2024, paragraff 202
[102] Cofnod y Trafodion: Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol - 17 Ionawr 2024, paragraff 202
[103] Cofnod y Trafodion: Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol - 17 Ionawr 2024, paragraff 203

gostyngiadau cyffredinol i bawb, mae'n anffodus iawn ein bod mewn sefyllfa lle bydd yn rhaid gwneud newidiadau sylweddol. Mae hyn yn debygol o gynnwys newidiadau na fyddai neb yn dymuno eu gweld, o ran maint sefydliadau cenedlaethol a sut maent yn gweithredu. Er gwaethaf yr heriau Cyllido sylweddol hyn, rydym , fodd bynnag, yn credu bod yn rhaid i Lywodraeth Cymru flaenoriaethu ei gwariant mewn rhai meysydd.  Rydym yn amlinellu'r rhain isod.

## Diogelu'r casgliadau cenedlaethol

**108.** Rydym wedi codi pryderon ynghylch diogelu'r casgliadau cenedlaethol ers sawl blwyddyn. Nid yw hwn yn fater newydd, ond mae'n bryder parhaus difrifol, a fydd ond yn gwaethygu wrth i Amgueddfa Cymru a'r Llyfrgell Genedlaethol deimlo effaith cyllidebau is.

**109.** Yn ein hadroddiadau cyllideb ar gyfer 2022-23[104] a 2023-24[105] fe wnaethom godi pryderon am y bygythiad i ddiogelwch y casgliadau cenedlaethol. Mae'r ddau sefydliad hyn o werth diwylliannol sylweddol i'n cenedl. Rydym wedi datgan o'r blaen ein bod yn credu y dylid ystyried sut mae'r sefydliadau hyn yn cael cyllid i reoli ein trysorau cenedlaethol. Rydym bellach o'r farn bod hyn yn hanfodol.

**110.** Yn ogystal, dywedodd y Dirprwy Weinidog wrthym, ynglŷn â'r Strategaeth Ddiwylliant, y byddai'n ymgorffori elfennau diwylliannol bywyd yng Nghymru ar draws pob portffolio gweinidogol. Rydym yn cytuno'n llwyr â hyn; buasem, fodd bynnag, yn mynd ymhellach. Nid chredwn ei bod yn deg y dylai adran fach o'r llywodraeth orfod ysgwyddo'r cyfrifoldeb am genhadaeth genedlaethol wrth ddiogelu ein casgliadau cenedlaethol. Credwn y dylid rhannu cyfrifoldeb ar draws holl adrannau'r llywodraeth, ac o'r herwydd, dylai diogelu'r casgliadau cenedlaethol gael ei wneud yn genhadaeth drawslywodraethol.

**111.** Bydd sicrhau bod ymdrech ar y cyd gan y llywodraeth i ddiogelu ein casgliadau cenedlaethol yn sicrhau eu bod yn cael eu diogelu nawr, ac hefyd i genedlaethau'r dyfodol. Byddai gwarchod ein casgliadau cenedlaethol ar gyfer nawr a'r genhedlaeth nesaf yn sicrhau bod Llywodraeth Cymru yn gyson â nod Llesiant y Dyfodol sef "Cymru â diwylliant bywiog".

**112.** Er mwyn gwneud hyn, byddem yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn oedi unrhyw ymrwymiadau gwario ar brosiectau eraill fel Amgueddfa Gogledd Cymru. Dylid trosglwyddo'r arian hwn i helpu i ariannu'r gwaith brys sydd ei

---

[104] Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2022-23
[105] Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2023-24

angen i ddiogelu'r casgliadau cenedlaethol. Byddem hefyd yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn nodi pa wariant pellach y gellir ei ddefnyddio ar draws adrannau eraill i helpu i ddiogelu'r casgliadau cenedlaethol.

**113.** Mae angen gweithredu nawr i ddiogelu'r casgliadau cenedlaethol a byddem yn annog Llywodraeth Cymru i gymryd camau i wneud hynny.

**Argymhelliad 8.** Dylai Llywodraeth Cymru ganfod pa ymrwymiadau gwario y gellid eu hoedi ac i'r cyllid hwnnw gael ei ailgyfeirio i ddiogelu'r casgliadau cenedlaethol.

**Argymhelliad 9.** Dylai Llywodraeth Cymru wneud diogelu'r casgliadau cenedlaethol yn genhadaeth drawslywodraethol, a chanfod pa wariant y gellir ei ailddyrannu mewn adrannau eraill y llywodraeth i ddiogelu'r casgliadau cenedlaethol.

## Cyrff hyd braich a Strategaeth Ddiwylliant

**114.** Rydym wedi amlinellu'r heriau cyllidebol sy'n wynebu'r cyrff hyd braich sy'n dod o fewn cylch gwaith y Pwyllgor hwn. Rydym yn pryderu y bydd gostyngiadau o'r fath yn eu cyllidebau yn effeithio ar eu gallu i gyflawni'r hyn sy'n ofynnol arnynt, fel yr amlinellir yn eu llythyrau cylch gwaith.

**115.** Rydym yn croesawu'r camau a gymerwyd gan Lywodraeth Cymru i archwilio pa gymorth ariannol y gellir ei ddarparu i gyrff hyd braich gyda'u cynlluniau diswyddo gwirfoddol. Rydym yn pryderu, fodd bynnag, am yr amserlen a ddefnyddir i'w prosesu. Ni ellir rhuthro unrhyw brosesau diswyddo. Mae'n rhaid ymgymryd â phrosesau o'r fath yn ddiwyd, yn gyson ar draws gwahanol gyrff hyd braich, yn briodol er mwyn ystyried llesiant y staff, ac yn gywir.

**116.** Rydym yn croesawu ymrwymiad y Dirprwy Weinidog i adolygu'r llythyrau cylch gwaith gyda'r cyrff hyd braich yn hyn o beth. O ystyried y bydd y cyllidebau is yn cael eu cyflwyno o fis Ebrill eleni, byddem yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn dechrau trafodaethau ar frys gyda chyrff hyd braich i ddiwygio eu llythyrau cylch gwaith. Byddai hyn yn sicrhau bod yr hyn y gofynnir iddynt ei gyflawni yn realistig yn wyneb cyllidebau is yn ystod y flwyddyn ariannol nesaf.

**Argymhelliad 10.** Dylai Llywodraeth Cymru ddechrau trafodaethau brys gyda chyrff hyd braich i ddiwygio eu llythyrau cylch gwaith cyn y flwyddyn ariannol sydd i ddod, er mwyn sicrhau bod yr hyn a ofynnir ohonynt yn realistig yng ngholeuni cyllidebau llai.

**117.** O ystyried y rôl y bydd gan nifer o gyrff hyd braich wrth gyflawni'r Strategaeth Ddiwylliant, dylai Llywodraeth Cymru blethu unrhyw newidiadau i'r llythyrau cylch gwaith gyda chyhoeddi'r Strategaeth Ddiwylliant.

**118.** Cawsom ein siomi gan ymateb y Gweinidog a'r Dirprwy Weinidog eu bod yn gobeithio y bydd y Strategaeth Ddiwylliant yn barod erbyn diwedd y flwyddyn. Mae'r diffyg uchelgais hwn yn golygu y bydd yn cymryd bron i dair blynedd i gyflawni rhywbeth y dywedwyd wrthym yn wreiddiol fyddai'n cymryd chwe mis. O ystyried effaith y pandemig, costau uchel o ran ynni a chwyddiant, a gostyngiadau sylweddol yn y gyllideb, byddai o fudd i ddangos cyfeiriad strategol i'r sector.

## Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru

**119.** Mae'r Comisiwn Brenhinol yn chwarae rhan bwysig wrth gofnodi a archifo adeiladau ac archaeoleg hanesyddol yng Nghymru. Credwn fod y rôl hon yr un mor bwysig â'r gwaith a wneir gan gyrff eraill fel Amgueddfa Cymru a Llyfrgell Genedlaethol Cymru. Mae'r toriad arfaethedig o 22 y cant yn ei gyllid yn peri pryder sylweddol i ni.

**120.** Mae cadw straeon ein hamgylchedd adeiledig hanesyddol a'n hanes archaeolegol yr un mor bwysig i adrodd hanes Cymru â gwarchod y casgliad cenedlaethol. Mae’r toriad arfaethedig i gyllideb y Comisiwn Brenhinol yn anghymesur o uchel o gymharu â’r toriad i gyrff eraill a ariennir ym mhortffolio’r Dirprwy Weinidog, ond yn cynrychioli swm gwirioneddol cymharol fach, o ystyried y dyraniad bach i’r Comisiwn Brenhinol. Felly, rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn ailystyried setliad cyllideb y Comisiwn Brenhinol fel mater o flaenoriaeth. Dylai ailystyried y gostyngiad arfaethedig yn ei gyllideb o 22 y cant i 10 y cant. Byddai hyn yn sicrhau cydraddoldeb â'i bartneriaid yn y sector ehangach. Dylai Llywodraeth Cymru hefyd amlinellu pa gymorth ariannol y gall ei ddarparu ar gyfer rhaglen ddiswyddo wirfoddol.

**Argymhelliad 11.** Dylai Llywodraeth Cymru ailystyried y gostyngiad arfaethedig yng nghyllideb Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru o 22 y cant i 10 y cant. Dylai hefyd amlinellu pa gymorth ariannol y gall ei ddarparu ar gyfer rhaglen ddiswyddo wirfoddol.

## Cyllid ar gyfer chwaraeon

**121.** Yn eu tystiolaeth ysgrifenedig, dywedodd y Gweinidog a'r Dirprwy Weinidog wrthym, am y drydedd flwyddyn yn olynol y gall chwaraeon fod yn offeryn iechyd ataliol mwyaf effeithiol y genedl. Eto i gyd, ni welwn dystiolaeth o gyllid i gyd-

fynd â'r uchelgais hwn. Rydym eisoes wedi galw ar Lywodraeth Cymru i gynyddu'n sylweddol y cyllid i fynd i'r afael â chymryd rhan mewn chwaraeon mewn ardaloedd difreintiedig.[106] Yn ogystal, credwn fod y gostyngiadau a amlinellir yn y Gyllideb Ddrafft yn anghyson â'r nodau llesiant i Gymru. Fel y dywedodd Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol wrth y Pwyllgor Cyllid:

> *"Yn rhy aml o lawer, gwasanaethau diwylliannol fel canolfannau hamdden a chyfleusterau celfyddydol yw'r rhai sy'n cael eu taro galetaf ar adegau o bwysau cyllidebol ar draws pob lefel o lywodraeth. Mae hyn er gwaethaf y ffaith mai dyma rai o'r union bethau sy'n ein cadw'n iach ar adegau o angen a phwysau costau byw."*[107]

## Cefnogaeth i ddiwylliant a hamdden lleol

**122.** Fe wnaethom nodi'r ymateb a ddarparwyd gan y Gweinidog a'r Dirprwy Weinidog ynghylch cefnogaeth i wasanaethau diwylliant a hamdden lleol. Fodd bynnag, rydym yn pryderu, o ystyried bod y cyfeiriad polisi yn cael ei osod gan un adran, a bod cyllid yn cael ei ddarparu gan adran arall, bod potensial ar gyfer diffyg cydgysylltu a blaenoriaethu.

**123.** Er bod cyllid yn cael ei ddarparu drwy'r adran Llywodraeth Leol, nid ydym yn credu bod hyn yn rhyddhau'r Gweinidog perthnasol sydd â chyfrifoldeb dros yr adran Ddiwylliant, Twristiaeth a Chwaraeon o'u cyfrifoldebau wrth bennu gweledigaeth genedlaethol ar gyfer gwasanaethau o'r fath. Credwn fod cyfrifoldeb ar y Gweinidog perthnasol i nodi'n glir eu disgwyliadau ar gyfer llywodraeth leol o ran sut y caiff gwasanaethau diwylliant a hamdden lleol eu darparu ar sail blaenoriaethau cenedlaethol. Drwy roi arweiniad o'r fath, credwn y gallai alluogi llywodraeth leol i leihau rhai o'r beichiau cyllidebol y maent yn eu hwynebu. Er enghraifft, drwy rannu arfer da a gosod cyfeiriad, credwn y gallai helpu llywodraeth leol i gydweithio i ddarparu'r gwasanaethau hyn, gan y bydd materion tebyg yn codi ar draws ffiniau awdurdodau lleol.

**124.** Credwn hefyd y byddai eglurder o ran sut y byddai cyllid a ddyrennir ar gyfer gwariant refeniw llywodraeth leol ar gyfer gwasanaethau diwylliannol a hamdden yn fuddiol. Er nad yw cyllid cyffredinol i awdurdodau lleol yn cael ei neilltuo (ni chaiff ei glustnodi), rydym yn credu bod angen eglurder ynghylch sut

[106] Sicrhau chwarae teg: Adroddiad ar gymryd rhan mewn chwaraeon a gweithgarwch corfforol mewn ardaloedd difreintiedig - Awst 2022
[107] WGDB_24-25 09 Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol [PDF 324 KB]

mae awdurdodau lleol yn blaenoriaethu eu cyllid drwy setliad llywodraeth leol ar wasanaethau diwylliannol a hamdden lleol. Fodd bynnag, yr hyn sydd fwyaf pwysig yw fod angen i ni wybod sut y mae Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod llywodraeth leol yn bodloni disgwyliadau Gweinidogol o ran darparu gwasanaethau diwylliannol a hamdden. Byddai'n haws gwybod beth yw'r disgwyliadau hyn pe bai gan Lywodraeth Cymru strategaeth ddiwylliannol ar waith.

**Argymhelliad 12.** Dylai Llywodraeth Cymru amlinellu sut mae'n monitro a sicrhau bod llywodraeth leol yn bodloni disgwyliadau Gweinidogol o ran gwasanaethau diwylliannol a hamdden.

# Atodiad 1: .Rhestr o sesiynau tystiolaeth lafar

Rhoddodd y tystion a ganlyn dystiolaeth lafar i'r Pwyllgor ar y dyddiadau a nodir isod. Mae trawsgrifiadau o'r holl sesiynau tystiolaeth lafar ar gael ar wefan y Pwyllgor.

| Dyddiad | Enw a sefydliad |
|---|---|
| **11 Ionawr 2024** | **Jeremy Miles AS, Gweinidog y Gymraeg ac Addysg**<br>Llywodraeth Cymru<br>**Owain Lloyd, Cyfarwyddwr, Addysg a'r Gymraeg**<br>Llywodraeth Cymru<br>**Bethan Webb, Dirprwy Gyfarwyddwr Is-adran Cymraeg 2050**<br>Llywodraeth Cymru |
| **17 Ionawr 2024** | **Vaughan Gething AS, Gweinidog yr Economi**<br>Llywodraeth Cymru<br>**Dawn Bowden AS, Dirprwy Weinidog y Celfyddydau, Chwaraeon a Thwristiaeth**<br>Llywodraeth Cymru<br>**Jason Thomas, Cyfarwyddwr Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth**<br>Llywodraeth Cymru<br>**Dean Medcraft, Cyfarwyddwr Cyllid a Gweithrediadau**<br>Llywodraeth Cymru |